**Atebion**

# Lliwgar! Cyffrous! Anhygoel!

**Tasg 1**

1. Pa un o’r teitlau yma fyddai’r un gorau ar gyfer y darn yn eich barn chi?
   a. Noson Tân Gwyllt
   **b. Gŵyl Lusernau**
   c. Gŵyl Gerddoriaeth Fodern
   ch. Seremoni Goleuo’r Goleuadau Nadolig

2. Beth yw ffurf y darn? (✓)
   a. neges e-bost
   b. dyddiadur
   c. erthygl
   **ch. poster**

3. Beth yw pwrpas y darn? (✓)
   a. beirniadu
   **b. denu pobl i’r digwyddiad**
   c. canmol
   ch. cwyno

4. Mae’r arddull yn? (✓)
   a. ffurfiol
   b. barddonol
   **c. perswadiol**
   ch. ffeithiol

5. Ticiwch (✓) **Cywir** neu **Anghywir**:

| | | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|---|
| a. | Mae'r ŵyl hon yn digwydd bob 12 mis. | ✓ | |
| b. | Bydd yr ŵyl yn dechrau yn ystod y bore. | | ✓ |
| c. | Ychydig iawn o bobl sy'n mynd fel arfer. | | ✓ |
| ch. | Cystadleuaeth yw'r ŵyl. | ✓ | |
| d. | Bydd yr ŵyl yn digwydd yn Ewrop. | | ✓ |

Cywirwch y brawddegau anghywir.

| | |
|---|---|
| b. | Bydd yr ŵyl yn dechrau yn y nos. |
| c. | Mae miloedd o bobl yn mynd i'r ŵyl. |
| d. | Bydd yr ŵyl yn digwydd yn y Philipinau. |

6. Gweler y dudalen nesaf:

Dewch i ddathlu'r Nadolig yn

# Nos Sadwrn, 22 Rhagfyr, 2018

## yn

# San Fernando, Y Philipinau



- Dewch i edmygu'r dyfeisiadau enfawr!
- Dewch i fwynhau'r awyrgylch trydanol!
- Dewch i deimlo'r wefr wrth i'r awyr ddu droi'n dapestri o liwiau byw – diolch i'r cannoedd o fylbiau trydan ar bob dyfais!
- Dewch i weld y sioe ysblennydd wrth i'r goleuadau ddawnsio i rythm y gerddoriaeth!
- Dewch i gadw cwmni i'r miloedd o bobl fydd yn dod i wylio'r gystadleuaeth.

Pwy fydd yn ennill?

Y dyfeisiadau mwyaf lliwgar, mwyaf cyffrous, mwyaf anhygoel – wrth gwrs!

Dewch i fwynhau noson ysblennydd... ffantastig... anhygoel... ryfeddol... fendigedig

Gwelwn ni chi yno!

